

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2020 7.30 y h., 16eg o DACHWEDD 2020,
DRWY GYFRWNG ZOOM

1. Croeso

Estynnodd Gwyn Williams, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod unigryw hwn gynhaliwyd eleni drwy gyfrwng Zoom oherwydd y cyfyngiadau yn sgil y Pandemig Covid 19.

Cyfeiriodd at y ffaith fod ei gadeiryddiaeth yn dod i ben yn y cyfarfod hwn. Diolchodd i'r aelodau am yr anrhydedd o gael bod yn Gadeirydd. Teimlai ei fod, tros y blynyddoedd, wedi cael cyfle i fynd ar deithiau ledled Cymru a phellach ac wedi mwynhau cyfeillgarwch a hwyl o gydgerdded gydag aelodau'r Clwb ac fel canlyniad wedi bod yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl fel cydnabyddiaeth. Roedd wedi cael dwy flynedd wahanol iawn yn ystod ei gadeiryddiaeth. Roedd y flwyddyn gyntaf yn un arbennig yn llawn teithiau ac hefyd yn flwyddyn dathlu pen-blwydd y Clwb yn 40. Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn o weithgareddau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst i nodi hynny. Yn ystod ei ail flwyddyn fe darodd y pandemig Covid19 ac fel lluo o bethau eraill bu'n rhaid canslo teithiau'r Clwb yn ystod y cyfnodau clo. Roedd yn falch o weld fod pethau yn dechrau llacio ac yn gobeithio ein bod yn dechrau gweld diwedd i'r cyfnod anodd.

Diolchodd i swyddogion y Clwb a gweddill aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth dros y cyfnod a dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd, y swyddogion a'r Pwyllgor yn eu gwaith o lywio gweithgareddau'r Clwb i'r dyfodol.

Ar ran y Pwyllgor ac aelodau'r Clwb, diolchodd Dwynwen, cadeirydd newydd y Clwb i Gwyn am ei wasanaeth fel cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf ac fe nododd y byddai rhodd fechan yn cael ei hanfon iddo fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad.

2. Ethol Cadeirydd 2020 - 2022

Etholwyd Dwynwen Pennant yn Gadeirydd y Clwb am y cyfnod 2020 - 2022

Diolchodd Dwynwen i'r aelodau am yr anrhydedd o gael ei hethol yn Gadeirydd newydd y Clwb. Roedd wedi cael mwynhad o fynd ar deithiau'r Clwb dros y blynyddoedd ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w arwain dros y ddwy flynedd nesaf. Mawr obeithiai y byddai yn gallu llenwi'r bwlch roedd Gwyn yn ei adael.

3. Ymddiheuriadau :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Dylan Huw Jones, Elen Huws, Emyr Jones, Elin Walker Jones, Gerallt Pennant.

4. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Clwb a gynhaliwyd ar y 9fed o Dachwedd 2020 yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert fel rhai cywir.

5. Adroddiad y Trysorydd.

Cyflwynodd Dilys adroddiad ariannol a datganiad o gyfrifon ar gyfer 2019/2020.

Adroddwyd

- a) bod nifer yr aelodau eleni yn 281
- b) bod dwy o deithiau preswyl y Clwb yn ystod y flwyddyn wedi eu gohirio oherwydd y pandemig. Derbyniwyd taliadau gan yr aelodau ar gyfer y teithiau dan sylw ac roedd yr arian yn cael ei gadw gan y Clwb ac yn ymddangos yn y cyfrifon. Y gobaith oedd y byddai'r teithiau yma yn digwydd bellach yn 2021 pryd y defnyddir yr arian a dderbyniwyd i dalu amdanynt.
- c) bod y cyfrifon yn dangos bod gan y Clwb £6881.36 yn y banc
- ch) mai £20 oedd tâl aelodaeth cyfredol y Clwb ac er y telir tanysgrifiad o £20.25 i'r CMP ar gyfer bob aelod, roedd y Pwyllgor wedi argymhell na ddylid codi'r tâl aelodaeth am eleni yn sgil y swm sylweddol o arian wrth gefn y cyfeirir ato yn (c) uchod a'r ffaith fod y derbyniadau yn uwch na'r gwariant.

Cytunwyd

- i. derbyn y cyfrifon ar gyfer 2019/2020
- ii. dylid cadw y tâl aelodaeth yn £20 ar gyfer 2021
- iii. diolch i'r Trysorydd am ei gwaith trylwyr

6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Adroddodd lolo fod y Pwyllgor fel nifer o gyrff eraill wedi gorfod addasu eu ffordd o weithio yn sgil y Pandemig Covid 19. Cafodd y Pwyllgor ei dri chyfarfod arferol eleni ac fe gynhaliwyd y cyntaf ym mis Ionawr yn ôl y drefn arferol ym Mhlas y Brenin. Fodd bynnag, ar ôl mis Mawrth fe ddigwyddodd yr holl gyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom. Mae'r trefniadau wedi gweithio'n dda a gwelwyd bod rhai manteision gan fod aelodau ledled Cymru yn gallu cyfarfod dros y We gan osgoi'r angen i deithio pellteroedd sylweddol. Roedd y Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i lolo ap Gwynn am hwyluso'r trefniadau.

Yn ogystal â'r tri chyfarfod arferol, bu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor yn ystod mis Awst i drafod sut y dylid ceisio ailddechrau ein gweithgareddau wrth i'r cyfyngiadau cenedlaethol gael eu codi. Fe ailddechreuwyd rhaglen o weithgareddau o dan amodau penodol ac roedd y teithiau a drefnwyd yn boblogaidd, gyda'r mwyafrif yn llawn. Fodd bynnag bu'n rhaid dod â nhw i ben pan ddaeth y Clo Bach ond erbyn hyn roedd y cyfyngiadau wedi ei codi eto a'r rhaglen wedi ailgychwyn. Mae ymdopi â'r pandemig a'i effaith ar weithgareddau'r Clwb wedi mynd â chryn sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn felly.

Rhai o'r materion eraill a gafodd sylw:

Cwblhawyd y broses o gofrestru'r Clwb fel Elusen Gofrestredig. Cafwyd adroddiadau cyson gan Dilys, ein trysorydd, a fu'n weithgar iawn ar hyn a chafwyd gwybod fod y cais i gofrestru wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynwyr Elusennau a bod y Clwb bellach yn elusen gofrestredig.

Hefyd o dan arweiniad Gwyn, y Cadeirydd, cychwynnwyd ar y gwaith o geisio adnabod hen ddogfennau sy'n cofnodi sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb gyda'r nod o'u trosglwyddo i'r

Llyfrgell Genedlaethol er mwyn eu gwarchod fel tystiolaeth o ddatblygiadau ym myd gweithgareddau awyr agored drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr 20fed ganrif. Mae rhai o aelodau'r Clwb wrthi yn ceisio sefydlu yn union pa ddogfennaeth sydd ar gael.

Oherwydd gohirio'r Eisteddfod Genedlaethol am eleni ni lwyddwyd i gynnal ein darlith flynyddol ac mae'r trefniadau a wnaed ar ei chyfer yn cael eu trosglwyddo i Eisteddfod 2021 yn Nhregaron.

Nododd fod cyfnod Gwyn fel Cadeirydd y Clwb wedi dod i ben eleni ac y bydd Dwynwen yn dechrau ar ei chyfnod fel y Cadeirydd newydd. Mawr oedd ei ddiolch i Gwyn am ei wasanaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunodd yn dda i Dwynwen wrth iddi gymryd y gadair.

Derbyniwyd yr adroddiad

7. Adroddiad Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Nododd Eryl fod 2020 wedi bod yn flwyddyn tra gwahanol ac roedd ei adroddiad yn adlewyrchu hynny a'r Pandemig wedi cael cryn effaith ar weithgareddau'r Clwb. Serch hynny er gwaethaf y cloi mawr a ataliodd bob taith o ganol Mawrth hyd at ddechrau Medi, a'r cloi llai ddiwedd mis Hydref, gellir dweud bod y misoedd eraill wedi bod yr un mor brysur a llwyddiannus ag arfer i'r clwb.

Cynhaliwyd 32 o deithiau cerdded, yn llythrennol o Fôn i Fynwy. Cafwyd 17 o deithiau penwythnos yn y gogledd, gyda chyfartaledd o bron 12 ar bob un, a'r nifer mwyaf, 23, ar daith Gallt yr Ogof a'r Foel Goch ddyddiau'n unig cyn cyflwyno'r gwaharddiadau. Yr un math o niferoedd cyfartalog welwyd ar yr 7 taith yn ne Cymru, gydag 21 yn cerdded cyffiniau Crug Mawr ddechrau Rhagfyr. Yn ogystal â'r golygfeydd, efallai bod y gwledda yng Ngwesty'r Bear yng Nghrughywel yn denu hefyd. Ond, yn ôl yr arfer, y teithiau dydd Mercher welodd y niferoedd mwyaf, gyda chyfartaledd o dros 15 ar yr 8 taith gafwyd.

Diolchodd i'r rhai a arweiniodd y teithiau hyn am eu trylwyredd yn paratoi ac yn tywys yn ystyriol ar y daith ei hun. Ac, yn wyneb y trafferthion presennol, diolchodd iddynt am fod yn hyblyg pan fu raid aildrefnu teithiau ar adegau.

Un daith breswyl a gafwyd eleni, i Crianlarich ym mis Chwefror, a'r arbrawf o aros mewn gwesty'n cael ei werthfawrogi gan y criw, yn arbennig gan fod y glaw a'r tywydd rhewllyd ac yn arbennig y gwyntoedd cryfion wedi creu amodau anodd iawn ar y mynydd. O ganlyniad, gosodwyd record ananrhydeddus am y nifer lleiaf o gopaon y llwyddwyd i'w cyrraedd yn ystod unrhyw un o wythnosau'r clwb yn yr Alban!

Oherwydd y pandemig, gohiriwyd y teithiau oedd i'w cynnal yn Hawes a Glen Shiel ym mis Mai. Collwyd hefyd y cyfle, yn enwedig dros y cyfnodau o dywydd hynod o braf a gafwyd, i gynnal gweithgareddau ychwanegol megis dringo a sgrialu a beicio mynydd. Ymatebodd y Clwb yn ofalus a phwylllog wedi i'r gwaharddiadau llymaf gael eu codi o fis Medi ymlaen, gan bennu uchafrif o 12 i bob taith. Gweithiodd y syniad o gael dwy daith ar yr un dydd yn y gogledd yn dda, gan roi cyfle i ddewis o ran lleoliad ac o ran hyd a natur y daith. Wedi i waharddiadau teithio gael eu gosod ar nifer o siroedd, nid oedd yr un pwysau o ran niferoedd. Tra'r oedd aelodau Gwynedd a Môn (a siroedd eraill megis Ceredigion a Phowys) yn rhydd i fynd a dod, trefnwyd teithiau penodol, poblogaidd o ran nifer, ar gyfer aelodau

Sir Conwy'n unig. Gyda chymaint o siroedd dan waharddiad teithio yn y de, roedd y sefyllfa'n gymhleth yno ond cynhaliwyd teithiau serch hynny gan gadw'n ofalus at y rheoliadau. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i drefnwyr teithiau dydd Mercher a theithiau'r de a nododd hefyd ei werthfawrogiad o'r gymorth a gafodd gan lolo ap Gwynn, ysgrifennydd y Wefan. Roedd llawer o newidiadau wedi bod i'r rhaglen yn ystod y flwyddyn ac roedd lolo wedi diweddarau'r wefan yn sydyn er mwyn trosglwyddo gwybodaeth yn brydlon i'r aelodaeth.

Roedd bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau sut y gellid gwella'r ddarpariaeth a gyda'r angen bellach i feddwl am raglen 2021 gofynnodd i'r aelodau fod yn barod i gynnig teithiau.

Derbyniwyd yr adroddiad

8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Cafwyd adroddiad gan lolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

- i. Bu'r rhan fwyaf o'r flwyddyn yn gyfnod heriol i bawb, oherwydd y pla COVID-19. Bu tudalennau gwefan Clwb Mynydda Cymru, yn ogystal a thudalennau gweplyfr y Clwb yn gyfrwng i gadw mewn cysylltiad cyson â'r aelodaeth ac yn fodd i gyfleu'r sefyllfa gyfredol o wythnos i wythnos. Bu ymgais i ddiweddarau'r cynnwys mor gyson ag oedd yn bosib.
- ii. Bod mynediad rhwydd i dudalennau gwefan y Clwb drwy gyfrwng yr "ap" ar gyfer llwyfannau Android ac iOS, a ddarparwyd gan Rhys Jones, yn parhau'n boblogaidd.
- iii. Dengys data Google Analytics fod tua 9,600 o sesiynau wedi eu cynnal ar ein gwefan yn ystod y flwyddyn gan rhwng 400 ac 800 o ddefnyddwyr rheolaidd (50:50, merched a dynion) o 47 o wledydd – er yn bennaf o Gymru. Bu bron i 8,000 o ymweliadau â thudalen hanesion teithiau a thua 5,200 ymweliad â thudalen y rhaglen gweithgareddau. Ychydig dros 1,500 ymweliad gafodd ein tudalen newyddion a 430 oedd â diddordeb mewn ymaelodi. Ar y cyfan, yn syndod o brysur o ystyried na fu gweithgareddau rhwng mis Mawrth a Medi. O ran y llwyfannau a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr, defnyddiwyd cyfrifiaduron (41%) [PC 25%; Mac 12%] yn ogystal â ffonau clyfar (43%) a phadau/llechi (16%) [Android 20%; iOS 38%]. Felly, mae'n dal yn bwysig sicrhau fod ein gwefan yn gydnaws â'r holl llwyfannau poblogaidd.
- iv. Roedd defnydd y gweplyfr (FB) wedi cynyddu (ein grŵp ein hunain). Tua 750 yn dilyn ein tudalen yn rheolaidd, gyda thrawsdoriad gweddol gyson o ran oedran. Derbyniwyd nifer o negeseuon yn holi am wybodaeth hefyd. Cysylltwyd y dudalen gyda thudalen Galwad Cynnar ers mis Medi 2020.
- v. Cyhoeddir pob taith ar y gweplyfr, yn ogystal â hanes efo lluniau. Cedwir yr holl luniau ar gyfrif Flickr Pro arbennig (rhaid talu ffi blynyddol am hwn) – mae dros 7,000 o luniau gweithgareddau'r Clwb arno bellach.
- vi. Cyhoeddir teithiau a rhai cyhoeddiadau hefyd ar Trydar (ond nid yw mor boblogaidd â'r gweplyfr) yn ogystal ag e-bost uniongyrchol gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

vii. Diolchodd i bawb a ddarparodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn i gadw'r cofnod arbennig o hanesion Clwb Mynydda Cymru'n fyw.

Derbyniwyd yr adroddiad

9. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2020:

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Eryl Owain

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

Trysorydd: Dilys A Phillips (gyda Richard Roberts i barhau i gynorthwyo yn ôl yr angen

10. Ethol Is-Gadeirydd

Etholwyd Stephen Williams i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Clwb

11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2021

Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth:

- i. na dderbyniwyd unrhyw gais gan aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor ar gyfer 2021. Roedd y cyfansoddiad yn nodi'r angen i draean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr) ymddeol yn flynyddol, sef pedwar aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ailbenodi.
- ii. yn yr amgylchiadau anodd a heriol presennol argymhellwyd bod aelodaeth y Pwyllgor yn aros yr un fath cyn belled â bod y Cyfarfod Blynyddol yn cytuno. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi datgan eu parodrwydd i barhau i wasanaethu.
- iii os felly byddai aelodaeth y Pwyllgor fel a ganlyn:

Cadeirydd

Dwynwen Pennant

Is-gadeirydd

Stephen Williams

Aelodau

Iona Evans

Raymond Griffiths

Dewi Hughes

Gareth E Roberts

Richard Roberts
Eirwen Williams
Gwyn Williams (Llanrwst)

Swyddogion

Dilys A Phillips	Trysorydd
Eryl Owain	Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn	Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts	Ysgrifennydd Cyffredinol

Cytunwyd ar yr aelodaeth uchod i wasanaethu ar y Pwyllgor yn 2021

12 Archwilydd

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

13. Unrhyw Fater Arall

Ni ddaeth cais i drafod unrhyw fater arall.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Dwynen i bawb am eu cydweithrediad i sicrhau y gellid cynnal y Cyfarfod Blyneddol drwy gyfrwng gwahanol o dan yr amgylchiadau presennol a mynegodd y gobaith y byddai 2021 yn flwyddyn lle bydd gweithgareddau'r Clwb a'r holl gymdeithasu a chyfeillgarwch sy'n deillio ohonynt yn llawer rhwyddach.

